# Penodi Uwch Gymedrolwr
# Lefel 3 Gwyddor Bwyd a Maeth Uned 1

Mae angen Uwch Gymedrolwr ar gyfer Lefel 3 Gwyddor Bwyd a Maeth i arwain y tîm Asesiad Di-Arholiad (ADA). Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gydweithio'n agos â'r tîm pynciol gan sicrhau bod gofynion y cymhwyster hwn yn cael eu bodloni'n llawn. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu at hyfforddiant cymedrolwyr, gan arwain y broses safoni yn y gynhadledd cymedrolwyr. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus hefyd gyfrannu at gynhyrchu deunydd enghreifftiol ac arwain y Gwasanaeth Cynghori ar Deitlau ADA.

**Cyfrifoldebau Uwch Gymedrolwyr**

Mae'r Uwch Gymedrolwyr yn gyfrifol am osod y safonau ar gyfer cymedroli gwaith sy'n cael ei asesu'n fewnol gan y canolfannau. Rhaid i'r Uwch Gymedrolwr wneud y canlynol:

- cynghori ar benodi, hyfforddi ac ailbenodi, lle bo angen, arweinwyr tîm a chymedrolwyr
- mynychu a goruchwylio'r cynadleddau cymedrolwyr a/neu'r cyfarfodydd dethol eitemau safoni fel y bo'n briodol, a hefyd i fynychu cyfarfodydd dyfarnu yn ôl gofynion CBAC
- goruchwylio gwaith aelodau ei d/thîm a chraffu, drwy samplu safonau marcio'r cymedrolwyr
- monitro safonau'r holl gymedrolwyr ar gyfer yr uned hon, gan gynnwys, lle bo angen, unrhyw gymedrolwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, a gweithredu'n briodol er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb;
- goruchwylio a chymeradwyo adroddiadau i ganolfannau fydd wedi'u paratoi gan gymedrolwyr;
- paratoi adroddiad cyffredinol ar yr uned, gan ddilyn ffurf y bydd CBAC wedi'i phennu;
- bod ar gael i wneud gwaith marcio adolygol ar bob sesiwn yn ôl gofynion CBAC mewn perthynas ag Ymholiadau am Ganlyniadau yn ystod y cyfnodau perthnasol

Mae swydd Uwch Gymedrolwr yn ganolog i weithrediad y cymhwyster, ac oherwydd hynny mae angen ymrwymo cryn dipyn o amser i'r gwaith. Mae angen i Uwch Gymedrolwyr fod ar gael am o leiaf **tri** diwrnod y flwyddyn a allai fod yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae taliadau rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi deiliad y swydd i fynychu cynhadledd y safonwr a chyfarfodydd paratoi.

**Profiad/cymwysterau angenrheidiol**

- Addysg i lefel gradd.
- profiad addysgu perthnasol
- profiad o gymedroli cyrff dyfarnu
- profiad rheoli pobl
- y gallu i weithio'n dda o dan bwysau
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â allison.candy@wjec.co.uk. Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau yw **10 Chwefror 2025.**

**Sut i wneud cais**:

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio** i CBAC ar hyn o bryd, ewch i https://appointees.wjec.co.uk a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewn gofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodiadau (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Uwch Safonwr TAG Lefel 3 (CBAC/Eduqas) Gwyddor Bwyd a Maeth Uned 1** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth pellach, cysylltwch â:-

| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds<br>rob.reynolds@wjec.co.uk<br>02920 265 050 | neu | Rabina Chowdhury<br>Rabina.chowdhury@wjec.co.uk<br>02920 265 019 |